Papur 7

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Ein cyf/Our ref MA/CG/2145/23

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths, AS
Cadeirydd
Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Tachwedd 2023

Annwyl John,

Cyn cyfarfod â'r Pwyllgor ar 7 Rhagfyr, rwy'n atodi i'r llythyr hwn fersiwn wedi'i chywiro o Bennod 5 y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) ('y Bil') er gwybodaeth. Gwnaed gwelliannau i resi 3-6 yn nhabl 5.1 y Bennod hon i sicrhau bod yn ffeithiol a bod chroesgyfeiriadau ynghylch peilotiaid etholiadol yn cyd-fynd â'r Bil fel y'i cyflwynwyd. Bydd y gwelliannau hyn yn cael eu cynnwys yn y Memorandwm Esboniadol pan fydd yn cael ei ddiweddaru a'i ailgyhoeddi ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

Edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth eto i'r Pwyllgor ar 7 Rhagfyr.

Rwyf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir,

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# 5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

5.1. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth a chyhoeddi dyfarniadau. Mae Tabl 5.1 (is-ddeddfwriaeth) a Thabl 5.2 (cyfarwyddydau, chanllawiau) yn nodi'r canlynol mewn perthynas â'r rhain:

(i). y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo;

(ii). ar ba ffurf y mae'r pŵer i gael ei arfer;

(iii). priodoldeb y pŵer dirprwyedig;

(iv). y weithdrefn a gymhwysir; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam y bernir ei bod yn briodol

5.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Penderfynir beth fydd union natur yr ymgynghori ar ôl i'r cynigion gael eu ffurfioli.

**Tabl 5.1: Crynodeb o’r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| Adran newydd 20E(3)(c) o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau pellach (yn ogystal ag adrannau 20A i 20D newydd o Ddeddf 2013 a phennod 3 o Ran 1 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (peilota a diwygio etholiadau Cymreig)) i’r Comisiwn, i’w harfer gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol. Yn benodol, rhagwelir y gallai rheoliadau a wneir o dan j290 (Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig) roi swyddogaethau i’r Comisiwn mewn perthynas â’r platfform hwnnw.<br>Hefyd, efallai y bydd angen yn y dyfodol i | Negyddol neu gadarnhaol | Pan fo rhoi unrhyw swyddogaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddiwygiadau gael eu gwneud i Ddeddf gan Senedd y DU, Mesur gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Ddeddf gan y Senedd, bydd y rheoliadau sy’n rhoi’r swyddogaeth newydd honno yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Ym mhob achos arall, bydd y weithdrefn negyddol yn gymwys (mae adran 71(2) a (3) o Ddeddf 2013 (fel y’i diwygiwyd gan |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Weinidogion Cymru roi swyddogaethau eraill sy’n ymwneud â gweinyddu etholiadol i’r Comisiwn. | | baragraff 1(54)(b) o Atodlen 1 i’r Ddeddf hon yn cyfeirio at hyn). |
| Adran newydd 9ZA((6)(a)-(c) o Ddeddf 1983 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch yr hyn sy’n ofynnol ar yr hysbysiad etholiad a anfonir at bob etholwr sydd wedi’i gofrestru’n awtomatig. Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiweddaru’r rhestr o wybodaeth ofynnol yn unol â gweithgarwch peilota ac yn y dyfodol os bydd gwerthuso’r cynllun cofrestru awtomatig yn tynnu sylw at yr angen am wybodaeth hanfodol i etholwyr. | Negyddol | Mae sylwedd y pŵer hwn wedi’i nodi ar wyneb y bil h.y. yr hyn y mae’n rhaid i Swyddog Cofrestru Etholiadol ei gynnwys yn yr hysbysiad cofrestru. Byddai’r pwerau gwneud rheoliadau hyn yn cael eu defnyddio i ddiweddaru’r rhestr hon yn dilyn argymhellion gan gynlluniau peilot cofrestru awtomatig, neu yn y dyfodol i adlewyrchu unrhyw newidiadau pellach a argymhellir a fyddai’n cefnogi’r |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | etholwr i ddeall y broses hon. |
| Adran 5 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ar gyfer cynnal cynlluniau peilot etholiadol mewn cysylltiad â materion etholiadol perthnasol (fel y’u diffinnir gan adran 5(3)) yn etholiadau Cymru (etholiadau cyffredin Senedd Cymru, etholiadau cyffredin llywodraeth leol ac is-etholiadau llywodraeth leol). Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ddefnyddio’r pŵer hwn i dreialu’r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3 (adran 5(4)). | Cadarnhaol a negyddol | Lle mae rheoliadau peilot;<br>yn cael eu gwneud heb ganiatâd yr awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo weithredu'r cynllun peilot;<br>yn treialu’r darpariaethau cofrestru diwygiedig a gyflwynir gan adran 3; neu<br>yn creu, yn dileu neu’n addasu troseddau,<br><br>mae’r rheoliadau yn ddarostyngedig i’r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (adran 7(3) a (4)). Ystyrir ei |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| | | | | | bod yn briodol, mewn amgylchiadau o'r fath, i roi cyfle i'r Senedd drafod teilyngdod cynlluniau peilot o'r fath.<br><br>Bydd pob rheoliad peilot arall yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol (adran 7(5)). Ystyrir bod hyn yn briodol oherwydd cyn gwneud unrhyw reoliadau peilot, bydd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (drwy ei Fwrdd Rheoli Etholiadol) adrodd ar y cynllun arfaethedig, a rhaid gosod copi o'r adroddiad gerbron y |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Senedd gyda'r rheoliadau. |
| Adran 8 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at, dileu neu ddiwygio'r rhestr o faterion etholiadol (yn adran 5) y gellir ymgymryd â chynlluniau peilot mewn cysylltiad â hi). Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i ganiatáu i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr yn unol ag ymrwymiadau'r llywodraeth. Fodd bynnag, ni ellir diwygio'r rhestr i alluogi cynnal cynlluniau peilot mewn cysylltiad â'r system bleidleisio ar gyfer aelodau sy'n dychwelyd o Senedd Cymru, prif gyngor neu gyngor cymuned. | Cadarnhaol | Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud diwygiadau i'r rhestr o faterion etholiadol y gellid rhedeg cynllun peilot ar eu cyfer. Os caiff cynlluniau peilot eu gweithredu, byddant yn ddarostyngedig i'w cyfundrefn werthuso a chraffu eu hunain. Ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan y bydd yn sicrhau bod y Senedd yn cael cyfle i drafod rhinweddau diwygio'r rhestr honno. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| Adran 15(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i nodi beth y dylai adroddiad Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gynlluniau peilot arfaethedig ei gynnwys (bydd y swyddogaeth hon yn cael ei harfer drwy ei Fwrdd Rheoli Etholiadol). Mae adran 15(2) yn rhagnodi'r materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn roi sylw iddynt (o leiaf) wrth asesu cynigion peilot, a gall y Comisiwn hefyd wneud unrhyw argymhellion y mae'n barnu eu bod yn berthnasol (adran 15(4)). Bydd y pŵer hwn yn darparu hyblygrwydd yn y dyfodol os bydd Gweinidogion Cymru | Negyddol | Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i alluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi meini prawf penodol ychwanegol y dylid eu hystyried wrth werthuso cynigion peilot. Mae'r materion y mae'n rhaid eu hasesu ac adrodd arnynt wedi'u nodi ar wyneb y ddeddfwriaeth (adran 15(2)). Felly, ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn dymuno nodi maen prawf ychwanegol y dylid ei ystyried pan fydd cynigion ar gyfer cynlluniau peilot yn cael eu gwerthuso. | | |
| Adran 17(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i nodi’r hyn y dylai canllawiau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar ymgymryd â chynlluniau peilot ei gynnwys. Yn ogystal â’r gofynion a nodir ar yr wyneb ar y Bil (adran 17(2)), ac yn ogystal ag unrhyw beth y mae’r Comisiwn yn credu sy’n berthnasol (adran 17(3)), gall Gweinidogion Cymru fynnu bod materion ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y | Negyddol | Mae'r pŵer hwn wedi'i gyfyngu i alluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu at y materion y dylid mynd i’r afael â nhw yn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ar gyfer rhedeg cynllun peilot. Argymhellir y weithdrefn negyddol oherwydd bod y Bil eisoes yn cynnwys gofynion sylfaenol y canllawiau hynny ac mae’r Comisiwn, drwy ddarpariaethau’r Bil, hefyd yn rhydd i |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | canllawiau sy'n cael ei gyflwyno gan y Comisiwn. | | ddarparu canllawiau ar unrhyw faterion ychwanegol y maent yn teimlo sy'n berthnasol, ac nid yw hyn yn gofyn am gytundeb Gweinidogion Cymru. Mae'r pŵer hwn yn weinyddol yn bennaf. |
| Adran 19(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau parhaol i gyfraith etholiadol yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus. Fodd bynnag, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y gellir gwneud rheoliadau o'r fath. | Uwchnegyddol<br>&<br>Uwchgadarnhaol | Lle mae rheoliadau diwygio;<br>yn addasu deddfwriaeth sylfaenol;<br>yn creu neu'n ehangu cwmpas trosedd; neu<br>yn creu neu'n diwygio pŵer i ddeddfu,<br>byddant yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol (adran 20 (3) a (4)), ond |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | gall y Senedd neu bwyllgor o’r Senedd sy’n adrodd ar y rheoliadau ddatrys, o fewn 30 diwrnod ar ôl i’r rheoliadau drafft gael eu gosod, y dylai gweithdrefn uwchgadarnhaol fod yn gymwys i reoliadau o’r fath (adran 20(13)). Mae’r weithdrefn uwchgadarnhaol hon yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw sylwadau; unrhyw benderfyniadau gan y Senedd; ac unrhyw argymhellion gan bwyllgor o’r Senedd sy’n gyfrifol am adrodd ar y rheoliadau drafft, a |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | wneir o fewn 60 diwrnod i osod y rheoliadau. Dim ond os yw'r Senedd yn eu cymeradwyo ar ôl i'r cyfnod 60 diwrnod ddod i ben y caiff Gweinidogion Cymru wneud y rheoliadau (heb newidiadau perthnasol). Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl y cyfnod o 60 diwrnod, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau drafft, ond gyda newidiadau perthnasol, rhaid gosod y rheoliadau drafft diwygiedig gerbron y Senedd ynghyd â datganiad yn crynhoi'r newidiadau, i'w |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cymeradwyo gan y Senedd.<br><br>Ar gyfer pob offeryn statudol arall sy’n cynnwys rheoliadau diwygio, bydd gweithdrefn uwchnegyddol yn berthnasol (adran 20(5)). Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, pan fyddant yn ystyried bod y weithdrefn negyddol yn briodol, wneud datganiad i’r perwyl hwnnw a gosod drafft o’r rheoliadau gerbron y Senedd ynghyd â memorandwm sy’n nodi eu datganiad a’r rhesymau dros eu barn. Ni chaiff Gweinidogion |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | | | Cymru ond symud ymlaen i wneud y rheoliadau ar ffurf y weithdrefn negyddol os yw Pwyllgor perthnasol yn y Senedd yn gwneud argymhelliad ynghylch y weithdrefn briodol, neu os oes 14 diwrnod yn mynd heibio ers gosod y rheoliadau drafft ac os na dderbynnir argymhelliad gan y pwyllgor.<br><br>Ystyrir bod y ddwy weithdrefn yn briodol gan eu bod yn darparu ar gyfer craffu ychwanegol gan y Senedd sy’n adlewyrchu natur y rheoliadau diwygio. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| Adran 27(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddarparu platfform gwybodaeth ar gyfer etholiadau Cymreig. Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu pwy yw'r sefydliad gorau i ddarparu ar gyfer platfform o'r fath a pha wybodaeth, yn ychwanegol at yr wybodaeth a ragnodir mewn deddfwriaeth sylfaenol, y dylid ei darparu i bleidleiswyr i gefnogi eu cyfranogiad yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau prif gynghorau yng Nghymru gyda phŵer i gynnwys gwybodaeth mewn perthynas ag etholiadau llywodraeth leol. Rhaid i'r rheoliadau hefyd nodi | Cadarnhaol a negyddol | Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn gymwys pan fo rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ymwneud ag is-adran (4)(c), hynny yw, pan fo'r rheoliadau'n rhoi esemptiadau rhag atebolrwydd sifil a throseddol mewn cysylltiad â chyhoeddi datganiadau ymgeiswyr a gwybodaeth arall am ymgeiswyr. Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | trefn adrodd ar redeg platfform gwybodaeth am etholiadau Cymreig a'i effaith. | | pwysigrwydd gwleidyddol cyfyngu ar atebolrwydd o'r fath i'r Senedd gyfan.<br>Mae'r weithdrefn negyddol i'w defnyddio pan wneir rheoliadau mewn perthynas â rhoi swyddogaethau i bersonau, ynghylch cyhoeddi gwybodaeth ar y platfform, gan gynnwys cyhoeddi datganiadau ymgeiswyr a gwybodaeth arall mewn perthynas ag ymgeiswyr, a sicrhau bod yr wybodaeth ar y platfform ar gael ac eithrio drwy ddulliau electronig. Mae hyn yn caniatáu i'r gofynion ynghylch |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | | | adrodd ar weithrediad ac effeithiolrwydd y platfform gael eu nodi. Mae’r weithdrefn hon yn briodol gan ei bod yn debygol y bydd yn ymwneud â materion gweinyddol yn hytrach na materion sy’n ymwneud â pholisi. |
| Adran 28(8) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu, diwygio neu ddileu gwasanaethau a ychwanegir at y rhai y gellir eu darparu i hyrwyddo amrywiaeth mewn personau sy’n ceisio swydd etholedig. | Cadarnhaol | Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol Senedd gyfan. Teimlir bod y weithdrefn |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | | | gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol.<br>Yn ogystal â hyn, gan fod y pŵer hwn yn cynnwys diwygio deddfwriaeth sylfaenol, teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol. |
| Adran 29(1) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae’n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol i helpu ymgeiswyr, sydd â nodweddion neu amgylchiadau penodol, i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiad sy’n gysylltiedig â’r | Cadarnhaol | Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol Senedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | nodweddion neu'r amgylchiadau hynny.<br>Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi neu ddarparu ar gyfer penodi person i weithredu'r cynllun y maent yn darparu ar ei gyfer.<br><br>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau i berson a darparu ar gyfer dirprwyo'r swyddogaethau hynny, yn ei gwneud yn ofynnol i berson y rhoddir swyddogaethau iddo gadw a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio, i gadw cyfrifon a chofnodion eraill, ac yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall gyhoeddi gwybodaeth | | gyfan. Teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | benodedig am gymorth ariannol a roddir yn unol â'r cynllun (fodd bynnag, ni osodir dyletswydd o'r fath i gyhoeddi pan fyddai'r ddyletswydd honno (gan gymryd y ddyletswydd i ystyriaeth) yn groes i'r ddeddfwriaeth diogelu data o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018).<br><br>Mae'n galluogi rhoi cymorth ariannol yn amodol ar amodau ac yn nodi'r amgylchiadau pan fydd cymorth o'r fath yn cael ei ad-dalu. | | |
| Adran 29(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru nodi, mewn rheoliadau, unrhyw drefniadau i ddarparu cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl sy'n | Cadarnhaol | Mae hyn er mwyn rhoi cyfleoedd ychwanegol i Senedd Cymru graffu ar y penderfyniadau a wneir gan |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | sefyll mewn etholiad yng Nghymru i oresgyn rhwystrau er mwyn cymryd rhan lawn ac effeithiol yn yr etholiad sy'n gysylltiedig â'u hanabledd.<br><br>Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi swyddogaethau i berson a darparu ar gyfer dirprwyo'r swyddogaethau hynny, yn ei gwneud yn ofynnol i berson y rhoddir swyddogaethau iddo gadw a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio, i gadw cyfrifon a chofnodion eraill, ac yn ei gwneud yn ofynnol i berson arall gyhoeddi gwybodaeth benodedig am gymorth ariannol a roddir yn unol â'r cynllun (fodd bynnag, ni osodir | | Weinidogion Cymru yn y maes hwn oherwydd pwysigrwydd gwleidyddol Senedd gyfan. Teimlir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hyn er mwyn sicrhau tryloywder a niwtraliaeth wleidyddol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dyletswydd o’r fath i gyhoeddi pan fyddai’r ddyletswydd honno (gan gymryd y ddyletswydd i ystyriaeth) yn groes i’r ddeddfwriaeth diogelu data o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018).<br><br>Mae’n galluogi rhoi cymorth ariannol yn amodol ar amodau ac yn nodi’r amgylchiadau pan fydd cymorth o’r fath yn cael ei ad-dalu. | | |
| Adran 156 o Ddeddf 2000 (fel y'i diwygiwyd gan adran 34(2)) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae paragraff 14A o Atodlen 4A i RPA 1983 (fel y’i diwygiwyd gan y Bil) yn caniatáu i’r Comisiwn Etholiadol baratoi canllawiau i’w defnyddio gan ymgyrchwyr, gan nodi’r gofynion cyfreithiol sy’n | Dim gweithdrefn | Cyn gwneud gorchymyn i ddod ag unrhyw ganllawiau i rym, rhaid i Weinidogion Cymru osod y canllawiau drafft gerbron y Senedd am gyfnod o 40 |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymwneud â gwariant ar ymgyrchoedd mewn etholiadau llywodraeth leol. Daw Gweinidogion Cymru â'r canllawiau i rym drwy orchymyn. Mae'r Bil yn diwygio adran 156(3) o RPA 1983 fel nad yw gorchmynion o'r fath yn destun gweithdrefn gan y Senedd. | | diwrnod. Os yw'r Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r canllawiau, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ei dwyn i rym. Gan fod y canllawiau drafft yn destun craffu llawn, ystyrir ei bod yn briodol nad yw gorchymyn dilynol i ddod â'r canllawiau hynny i rym yn ddarostyngedig i weithdrefn arall gan y Senedd. |
| Adran 88(11) o Ddeddf 2000 (fel y'i diwygiwyd gan adran 37(2)) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr o ddisgrifiadau o drydydd partïon, y darperir ar eu cyfer yn adran 88(2) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, | Cadarnhaol | Gan fod y pŵer hwn yn caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio, ystyrir ei bod yn briodol i'r Senedd gael cyfle i drafod rhinweddau |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), sy'n gallu cofrestru i ymgyrchu mewn cyfnod etholiad Senedd sy'n cael ei reoleiddio, gan ganiatáu iddynt wynebu gwariant o fwy na £700. Gall gorchymyn ychwanegu, dileu neu addasu disgrifiad o'r trydydd partïon hynny. Fodd bynnag, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y gellir dileu neu addasu'r disgrifiadau o drydydd partïon. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cadw'r rhestr o drydydd partïon cymwys yn wyneb unrhyw ddatblygiadau, ac osgoi'n ddiangen atal math newydd o drydydd parti rhag gallu | | unrhyw ddiwygiad o'r fath ac felly mae defnyddio'r pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Yn ogystal â hyn, pan fo Gweinidogion Cymru yn cynnig tynnu trydydd partïon oddi ar y rhestr, neu ddiwygio'r disgrifiad o'r trydydd partïon hynny, mewn perthynas â'r cyfnod ymgyrchu perthnasol, dim ond ar argymhelliad y Comisiwn Etholiadol y byddant yn gallu gwneud hynny. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ymgyrchu mewn etholiad. | | |
| Adrannau newydd 100A a 100C o Ddeddf 2000 (fel y'u mewnosodwyd gan adran 38(2) a (4)) | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Mae adran 38 o'r Ddeddf yn mewnosod darpariaeth newydd mewn PPERA sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol baratoi cod ymarfer ynghylch y rheolaethau ar wariant trydydd parti yn ystod ymgyrch etholiadol gan y Senedd (mae adran 38(2)(a) yn mewnosod adran newydd 100A(1A) yn PPERA). Mae adran 38(4) yn mewnosod adran newydd 100C yn PPERA sy'n nodi'r weithdrefn ar gyfer paratoi a mabwysiadu'r cod ymarfer. Mae unrhyw god ymarfer o'r fath yn cael ei ddwyn i rym drwy orchymyn Gweinidogion Cymru | Dim gweithdrefn | Nid yw unrhyw orchymyn sy'n dod â chod ymarfer perthnasol i rym yn ddarostyngedig i weithdrefn gan y Senedd. Ystyrir hyn yn briodol oherwydd cyn y gellir gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol baratoi ac ymgynghori ar y cod ymarfer, sy'n cynnwys ymgynghori â'r Pwyllgor Llywydd a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (neu unrhyw bwyllgor olynol). Yn ogystal â hyn, rhaid i unrhyw god ymarfer drafft a gymeradwyir |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (adran 100C(8) o PPERA). | | gan Weinidogion Cymru gael ei osod gerbron y Senedd am gyfnod o 40 diwrnod cyn y caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn dod â'r cod hwnnw i rym. Os yw'r Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn yn ei dwyn i rym. |
| Adran 41 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau y cyfnod adolygu ar gyfer adolygiadau o drefniadau etholiadol cymunedol gan brif gyngor | Negyddol | Mae newid y cyfnod adolygu ac ailosod dyddiad dechrau cyfnod adolygu yn fanylion technegol y gallai fod eu hangen os bydd tarfu ar raglen adolygu. Mae enghreifftiau o sefyllfaoedd a |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fyddai'n ysgogi defnyddio'r pŵer hwn yn cynnwys argyfwng iechyd cyhoeddus, newid yn y dyddiad ar gyfer etholiad llywodraeth leol neu ddarparu mwy o synergedd rhwng cyfnodau adolygu trefniadau sirol a chymunedol. |
| Adran 57<br><br>Adran 69R o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i addasu Rhan 5A i ychwanegu, amrywio neu hepgor darpariaeth sy'n ymwneud â swyddogaeth y Comisiwn neu'n gosod swyddogaeth arno | Cadarnhaol | Ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol gan y gellid defnyddio'r pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol. Mae'n atgynhyrchu'r pŵer a'r weithdrefn yn adran 158 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| Adran 69 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ddefnydd cyffredinol i wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn cysylltiad â darpariaethau o fewn y Bil. | Negyddol a Chadarnhaol | Bydd y rhain yn rhai technegol a gweithdrefnol eu natur.<br><br>Pan fyddai rheoliadau'n diwygio, yn diddymu neu fel arall yn addasu darpariaeth mewn Deddf Seneddol neu a Deddf neu Fesur Senedd Cymru, ni chaniateir i'r offeryn sy'n cynnwys y rheoliadau gael ei gwneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Senedd. |
| Adran 70 | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Y pŵer i ddechrau darpariaethau penodol | Dim gweithdrefn | Mae hwn yn bŵer i bennu dyddiad dod i |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mewn perthynas â Biliiau er mwyn galluogi i'r broses o ddod i rym a gweithredu gael eu hamseru'n briodol. | | rym ar gyfer darpariaethau y cytunwyd arnynt eisoes yn y Bil, ac ystyrir ei bod yn briodol nad oes angen gweithdrefn ar gyfer hyn. |
| Atodlen 1<br><br>Adran 69K(2)(d) o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi corff cyhoeddus sy'n berthnasol at ddibenion yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys mewn adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol o dan adran 69K. | Negyddol | Galluogi tryloywder llawn y taliad cydnabyddiaeth y mae cynghorwyr yn ei chael gan gyrff cyhoeddus, yn ogystal â'u cyngor eu hunain. |
| Atodlen 1<br><br>Adran 69C(2)(e) o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrff sy'n dod o fewn y diffiniad o'r term awdurdod perthnasol at ddibenion Rhan 5A. | Negyddol | Byddai'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu cyrff o fewn y teulu llywodraeth leol at y rhestr o gyrff y |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | byddai'n ofynnol iddynt ddilyn penderfyniadau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru mewn perthynas â thaliadau a phensiynau. |
| Atodlen 1<br><br>Adran 69D(1) o Ddeddf 2013 fel y'i mewnosodwyd gan adran 57(2) o'r Bil | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn rheoliadau, ddisgrifiad o aelodau y byddant yn gymwys i gael taliad ailsefydlu. | Negyddol | Mae hyn yn dechnegol ei natur ar y cyfan a byddai'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r disgrifiad o'r aelodau y byddai unrhyw daliadau ailsefydlu yn y dyfodol yn berthnasol iddynt. Byddai'r Comisiwn wedyn yn gyfrifol am bennu'r amodau cymhwyso y byddai'n rhaid i |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
| | | | | | unigolion eu bodloni cyn derbyn taliad. |

**Tabl 5.2: Crynodeb o’r pwerau i wneud cyfarwyddydau a dyroddi canllawiau yn narpariaethau Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)**

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 20B(1) o Ddeddf 2013, fel y’i mewnosodwyd gan adran 1(2) | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru | Cyfarwyddydau | Y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i swyddogion canlyniadau ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Ni fydd cyfarwyddydau’n disodli eu cyfrifoldeb personol presennol i gyflawni eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau. | Dim gweithdrefn | Bydd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (sy’n gweithredu drwy’r Bwrdd Rheoli Etholiadol) ymgynghori â’r Comisiwn Etholiadol cyn dyroddi cyfarwyddydau. |
| Adran 20C(1) o Ddeddf 2013 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 1(2)) | Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru | Cyfarwyddydau | Y pŵer i ddyroddi cyfarwyddydau i swyddogion cofrestru etholiadol ynghylch arfer eu swyddogaethau mewn perthynas ag etholiadau a refferenda datganoledig yng Nghymru. Ni fydd cyfarwyddydau’n disodli eu cyfrifoldeb personol presennol i gyflawni eu swyddogaethau neu eu dyletswyddau. | Dim gweithdrefn | Bydd yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Cymru (sy’n gweithredu drwy’r Bwrdd Rheoli Etholiadol) ymgynghori â’r Comisiwn Etholiadol cyn dyroddi cyfarwyddydau. |

| **Adran** | **I bwy y rhoddir y pŵer** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Adolygiadau etholiadol<br>Adran 50(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i ohirio adolygiad hyd at ddyddiad penodedig neu gyfarwyddyd pellach | Dim gweithdrefn | Os bydd tarfu o unrhyw fath, fel argyfwng iechyd cyhoeddus neu newid dyddiad etholiadau llywodraeth leol, ni fyddai Gweinidogion Cymru yn gallu lliniaru'r effaith ar y broses adolygu heb y ddarpariaeth hon. |
| Adroddiad drafft – cydnabyddiaeth ariannol<br>S69H(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo'r Comisiwn i ailystyried darpariaeth mewn adroddiad blynyddol drafft neu adroddiad atodol drafft | Dim gweithdrefn | Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli o fewn Mesur 2011. Mae'n cael ei ailadrodd o ganlyniad i'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn drwy'r Ddeddf hon a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| Cydymffurfio – cydnabyddiaeth ariannol<br>S69M(1) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddyd i awdurdod lleol | Dim gweithdrefn | Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli o fewn Bil 2011. Mae'n cael ei ailadrodd o |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | i gydymffurfio â gofyniad a bennir gan y Comisiwn | | ganlyniad i'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn drwy'r Ddeddf hon a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| Dal taliadau yn ôl<br>69O(3) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo awdurdod lleol i ddal taliadau yn ôl mewn cysylltiad â chydnabyddiaeth ariannol | Dim gweithdrefn | Mae'r ddarpariaeth hon eisoes yn bodoli o fewn Mesur 2011. Mae'n cael ei ailadrodd o ganlyniad i'r swyddogaethau sy'n cael eu rhoi i'r Comisiwn drwy'r Ddeddf hon a diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. |
| Taliad cydnabyddiaeth<br>69P(2) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau i'r Comisiwn mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bil. | Dim gweithdrefn | Bwriad y pŵer i ddyroddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesau ac, o'r herwydd, nid yw gweithdrefn y Cynulliad yn briodol. |
| Taliad cydnabyddiaeth 69P(1) | Comisiwn | Canllawiau | Mae'n galluogi'r Comisiwn i ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas â'i swyddogaethau o dan Ran 5A. | Dim gweithdrefn | Bwriad y pŵer i ddyroddi canllawiau yw hwyluso'r broses o gymhwyso'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud yn bennaf â phrosesau rhwng y Comisiwn ac awdurdodau lleol ac, fel y cyfryw, nid yw gweithdrefn y Senedd yn briodol. |
| Adran 1(3) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, fel y'i diwygiwyd gan adran 26(2) | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddydau i awdurdod lleol i bennu cwmpas a fformat yr arolwg | Dim gweithdrefn | Mae hon yn ddarpariaeth dechnegol i sicrhau cysondeb cwestiynau craidd yr arolwg ym mhob ardal cyngor sir a bwrdeistref sirol. |

| Adran | I bwy y rhoddir y pŵer | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 14 o Ddeddf 2013, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 1(4) o Atodlen 1 | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddydau | Mae hwn yn bŵer sy'n bodoli eisoes yn Neddf 2013 sy'n cael ei ddiwygio i sicrhau annibyniaeth y Comisiwn ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r Bwrdd Rheoli Etholiadol | Dim gweithdrefn | Nid oes newid i'r weithdrefn bresennol ond mae cwmpas y pŵer yn cael ei ddiwygio. |